Rhif: **WG28331**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru



# Cynllun y Bathodyn Glas yng Nghymru

Newidiadau i gymhwysedd i gynnwys pobl sydd, namau dros dro, asesu a gorfodi 2016

## Crynodeb o'r Ymatebion i'r Ymgynghoriad

ISBN digidol 978 1 4734 6204 5
© Hawlfraint y Goron 2016
WG28331

# Cynllun y Bathodyn Glas yng Nghymru: Newidiadau i gymhwysedd i gynnwys pobl sydd â namau dros dro, asesu a gorfodi 2016

## Crynodeb o'r Ymatebion i'r Ymgynghoriad

### Cefndir

Mae Cynllun y Bathodyn Glas yn caniatáu i ddeiliaid bathodynnau barcio'n agos at eu cyrchfan, naill ai fel teithiwr neu yrrwr, er mwyn cael mynediad at nwyddau, gwasanaethau a chyfleusterau. Hefyd mae'r cynllun yn hybu cynhwysiant cymdeithasol a byw'n annibynnol.

Y brif ddeddfwriaeth sy'n rheoli'r cynllun hwn yw Deddf Cleifion Cronig a Phersonau Anabl 1970 a'r is-ddeddfwriaeth yw Rheoliadau Personau Anabl (Bathodynnau ar gyfer Cerbydau Modur) (Cymru) 2000 fel y'u diwygiwyd. Yr awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am weinyddu'r cynllun a phenderfynu ar gymhwysedd.

Mae'r cynllun wedi cael ei adolygu'n helaeth yn ystod y 5 mlynedd diwethaf. Aeth adolygiad diweddar o'r cynllun gan grŵp Gorchwyl a Gorffen y Gweinidog ati i ddatgan nifer o argymhellion i roi sylw i'r anghysonderau wrth weinyddu'r cynllun; y dull o weithredu wrth asesu; a'r gorfodi.

Mae'r cymhwysedd ar gyfer y Cynllun wedi'i ddatgan mewn deddfwriaeth ac, yn gyffredinol, mae'n gyfyngedig i bobl sydd â namau parhaol. Fodd bynnag, cydnabyddir bod gan rai pobl namau dros dro sydd angen cyfnodau sylweddol o driniaeth ac adfer. O dan yr amgylchiadau hyn, efallai y bydd pobl yn elwa o dderbyn bathodyn wrth iddynt wella.

Cynhaliwyd ymarfer ymgynghori ar gynllun y Bathodyn Glas rhwng 19 Ionawr 2016 ac 16 Chwefror 2016 i geisio barn ar y canlynol:

- cynnwys pobl sydd â chyflyrau dros dro;
- gwneud y broses ymgeisio'n fwy effeithlon;
- caniatáu i awdurdodau lleol ganslo bathodyn ar ôl camddefnydd ohono.

Gosodwyd y cwestiynau mewn dogfennau arddull ffurflen a'u darparu ar-lein. Roedd y fformatau'n cynnwys ffurflen safonol, hawdd ei darllen a fformat y gellid ei ddefnyddio gyda sgrin-ddarllenydd er mwyn sicrhau bod yr ymgynghoriad yn hygyrch i bawb. Dosbarthwyd copïau papur ar gais ac roedd copïau Braille a sain ar gael hefyd ar gais (ond ni dderbyniwyd ceisiadau o'r fath).

**Crynodeb o'r Ymatebion**

Derbyniwyd 85 o ymatebion ysgrifenedig fel rhan o'r ymarfer ymgynghori, gan gynnwys rhai ymatebion hwyr, a dderbyniwyd gan eu bod wedi cyrraedd yn ystod y cyfnod dadansoddi. Mae'r manylion fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Ffurflen ymateb | 65 |
| Ymateb hawdd ei ddarllen | 5 |
| Ymatebion eraill, cyflwyniadau ar e-bost | 15 |

Derbyniwyd yr ymatebion gan grwpiau ac unigolion;

| | |
|---|---|
| Aelodau Cynulliad | 2 |
| Awdurdodau lleol, cynghorau, CLlLC | 12 |
| Grwpiau diddordeb | 28 |
| Aelodau'r cyhoedd | 43 |

Gwelir rhestr o'r rhai a gyfrannodd ac a gytunodd i rannu eu manylion yn **Atodiad 1**.

**Cwmpas y Dadansoddiad**

Mae'r dadansoddiad o'r ymatebion wedi cael ei rannu'n dri maes er mwyn adlewyrchu cynigion yr ymgynghoriad. Mae ymateb Llywodraeth Cymru'n rhoi sylw i bob maes.

Mae Cwestiynau 1 i 5 yn gofyn am farn ar **ymestyn y cymhwysedd** i gynnwys pobl sydd â namau dros dro ac sydd angen triniaeth a chyfnod adfer helaeth sy'n amharu ar eu symudedd.

Bwriad y cynnig hwn yw cynnwys y bobl sydd â'r un lefel o angen â'r rhai sy'n gymwys o dan y meini prawf dewisol, ond am gyfnod 'dros dro'.

Roedd y cwestiynau'n ceisio sefydlu pa gyflyrau dros dro ddylid eu cynnwys a phenderfynu ar gyfnod o amser addas a rhesymol ar gyfer rhoi bathodynnau 'dros dro'.

Mae Cwestiynau 6 i 10 yn gofyn am farn ar gynigion i **wneud y prosesau gweinyddol yn fwy effeithlon** mewn achosion lle mae'r ymgeisydd wedi cael asesiad manwl yn flaenorol.

Mae Cwestiynau 11 i 13 yn seiliedig ar **orfodi** mewn perthynas â'r Bathodynnau, yn erbyn twyll a chamddefnydd, gan gynnwys a ddylai awdurdod lleol allu canslo Bathodyn heb fod angen euogfarn berthnasol.

**Y Prif Faterion a Godwyd yn yr Ymatebion**

Roedd croeso cyffredinol i gynnwys namau symudedd dros dro yn rhan o gynllun y Bathodyn Glas, ond gydag amheuon, ac roedd lleiafrif yn gwrthwynebu'r cynnig yn llwyr. Ymhlith yr amheuon roedd y canlynol;

- Yr effaith ar y ddarpariaeth barcio benodol - nododd yr ymatebwyr ei bod eisoes yn anodd cael hyd i le parcio addas oherwydd nifer y bathodynnau sydd wedi cael eu dosbarthu.
- Yr anhawster o gael bathodynnau yn ôl pan nad yw'r deiliad yn gymwys mwyach neu os yw'r bathodyn wedi dod i ben.
- Y baich gweinyddol ac ariannol i awdurdodau lleol sydd eisoes yn wynebu toriadau i'w cyllidebau. Bydd hyn yn cynnwys nifer cynyddol o asesiadau a delio ag ymholiadau, heriau a chwynion.
- Mae'r cyllid drwy'r Grant Cynnal Refeniw i dalu am fathodynnau 'am ddim' yn gyfyngedig. Mae'r cymhwysedd wedi cael ei ymestyn sawl gwaith, gan greu pwysau cyllidebol eto.
- Y potensial am anghysondeb cynyddol wrth i awdurdodau lleol brosesu ceisiadau. Cytunwyd bod cyfarwyddyd i awdurdodau lleol yn hanfodol.

Nodwyd yn yr ymatebion y dylid seilio'r meini prawf ar y rhwystrau mae pobl yn eu hwynebu ac y byddai angen asesiadau annibynnol i wirio cymhwysedd.

Roedd safbwyntiau croes am y defnydd o feddyg teulu person i wirio cymhwysedd ond cyflwynwyd dadl gref gan Gymdeithas Feddygol Prydain. Roedd Coleg Brenhinol y Meddygon Teulu'n cefnogi'r cynnig hefyd.

Roedd cefnogaeth gref iawn i wneud y prosesau ar gyfer adnewyddu bathodynnau sydd wedi dod i ben yn fwy effeithlon. Nid oedd cefnogaeth i ddefnyddio asesiadau gan yr Adran Gwaith a Phensiynau, sy'n arwain at y person nad yw'n derbyn y budd-daliadau lles cymwys i wrthod ceisiadau o dan y meini prawf symudedd dewisol. Roedd llawer iawn o bryder am sicrhau nad yw pobl sy'n herio penderfyniad yr Adran Gwaith a Phensiynau'n cael eu cosbi.

Yn gyffredinol, roedd yr ymatebion yn cytuno bod gwella'r gorfodi yn erbyn camddefnydd yn beth iawn i'w wneud ar yr amod nad oedd deiliaid bathodynnau 'diniwed' ac agored i niwed yn cael eu cosbi.

***Cwestiwn 1:***
Ydych chi'n cytuno y dylai pobl sy'n "*methu cerdded neu sy'n cael anhawster sylweddol cerdded oherwydd anabledd dros dro ond sylweddol sy'n debygol o bara am gyfnod o 12 mis o leiaf*" gael Bathodyn dros dro?

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Ydw | 62 | Nac ydw | 2 | Heb nodi | 21 |

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig hwn mewn egwyddor, gan ddeall sut byddai bathodyn yn helpu'r rhai sy'n "*methu cerdded neu sy'n cael anhawster sylweddol cerdded oherwydd anabledd dros dro ond sylweddol sy'n debygol o bara am gyfnod o 12 mis o leiaf*". Awgrymwyd y dylid cyfyngu'r rhestr o gyflyrau a'u diffinio'n ofalus gyda chyfarwyddyd ategol o ran sut ddylid asesu'r ymgeiswyr hynny.

Mae Grŵp Mynediad Arfon yn argymell y byddai'n rhaid newid unrhyw destun yn y cyfarwyddyd oherwydd "Mabwysiadodd Llywodraeth Cymru y Model Cymdeithasol o Anabledd yn 2002 felly mae'n rhaid i'r testun ddarllen "nam dros dro ond sylweddol . . ." oherwydd mae 'anabledd' yn bodoli yn y rhwystrau cymdeithasol ac nid yn y nam ei hun. Fodd bynnag, mae hefyd yn glir bod gan hyn botensial i fod yn nyth cacwn o ran adwaith y cyhoedd. Ond os mai dyma'r peth iawn i'w wneud, ni ddylai fod yn rhwystr i weithredu".

Yn gwrthwynebu'r cynnig roedd dadl Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr sef "Mae rhoi bathodyn ar gyfer sefyllfaoedd dros dro'n gwanio'r cynllun ac yn amharu ar ei bwrpas i helpu'r rhai sydd ag anableddau parhaol a sylweddol i dderbyn gwasanaethau" ac mae ymatebydd dienw'n teimlo bod "pwysigrwydd y cynllun wedi cael ei golli". Dywedodd rhai ymatebwyr bod anableddau dros dro a pharhaol yn gwbl wahanol o ran y ffordd maent yn effeithio ar fywydau pobl ac maent yn teimlo bod namau am oes yn cyflwyno heriau llawer mwy.

Mynegwyd barn gan nifer o ddeiliaid bathodynnau presennol, sy'n teimlo y byddai ymestyn y cynllun ymhellach yn cael effaith niweidiol ar argaeledd baeau parcio i'r anabl, sydd eisoes yn brin. Mae gan yr ymatebwyr hyn brofiad uniongyrchol o'r cynllun ac maent yn ei ddefnyddio'n ddyddiol. Roeddent yn mynegi barn gref a dywedodd un safbwynt personol *"Plîs, plîs peidiwch â rhoi mwy o fathodynnau glas oni bai eich bod chi'n mynd i gymryd camau mawr i alw bathodynnau sydd wedi'u rhoi'n flaenorol yn eu hôl a dinistrio bathodynnau".*

Cawsom straeon am sefyllfaoedd lle mae deiliaid bathodynnau, yn enwedig defnyddwyr cadair olwyn, wedi gorfod rhoi'r gorau i dripiau siopa am eu bod yn methu parcio mewn baeau penodol sy'n cynnig lle i drosglwyddo'n ddiogel i gadair olwyn, neu maent yn hwyr i apwyntiadau am yr un rheswm. Gall hyn arwain at ynysu os bydd deiliaid bathodynnau'n methu defnyddio'r cyfleusterau y mae arnynt eu hangen yn rheolaidd a bydd yr heriau hyn yn cynyddu os bydd mwy o fathodynnau'n cael eu rhannu.

Mynegwyd pryder gan yr awdurdodau lleol am nifer yr ymgeiswyr newydd a ddisgwyliwyd, ac felly'r cynnydd mewn amser, costau ac adnoddau oedd ei angen i ymdopi â'r galw ychwanegol. O ran gorfodi, disgrifiwyd pa mor anodd y gall fod i alw'r bathodynnau hyn yn eu hôl ar ôl y dyddiad dod i ben neu yn wir, pan mae cyflwr person wedi gwella, os yw hyn cyn y dyddiad dod i ben. Gall hyn arwain at gamddefnydd ehangach pan fo'r bathodynnau yma mewn cylchrediad o hyd ac mae hon yn broblem sy'n digwydd eisoes.

Esbonia Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot "Mae'r gwaith o adfer bathodynnau parhaol sydd ddim yn ddilys mwyach, neu nad oes eu hangen mwyach, eisoes yn ddiffygiol oherwydd y ddibyniaeth ar y deiliad neu ei gynrychiolydd i ddychwelyd y rhain i'r awdurdod sydd wedi eu rhoi. Er ein bod wedi mynd ar eu hôl, mae ein cyfradd ddychwelyd o dan 70% fel rheol, gyda dim ond 3 o fathodynnau wedi cael eu dychwelyd yn wirfoddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ar ôl gwella symudedd, allan o tua 11,000 o fathodynnau sydd mewn cylchrediad yn CBSCNPT. Bathodynnau sydd wedi dod i ben yn cael eu cadw a'u hailddefnyddio yw'r nifer uchaf o hysbysiadau camddefnydd rydym yn eu derbyn".

Awgrymwyd rhoi lliw gwahanol i fathodynnau dros dro i'w gwneud yn haws eu hadnabod, neu newid steil y bathodyn, er mwyn bod yn ymwybodol o'r meini prawf gwahanol.

***Cwestiwn 2:***
Ydych chi'n meddwl bod y rhestr isod yn briodol?

- Pobl sydd â thorasgwrn cymhleth yn y goes gyda theclynnau allanol
- Pobl sydd wedi cael strôc neu anaf i'r pen ac sy'n adfer yn araf a graddol
- Pobl sydd â thrawma i asgwrn y cefn, gan golli gallu niwrolegol yn y goes, ac sy'n adfer yn araf a graddol
- Pobl sydd â nam difrifol ar allu'r goes ac sy'n aros am gymal newydd neu wedi cael un ac yn adfer yn arafach na'r disgwyl

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Ydw | 44 | Nac ydw | 17 | Heb nodi | 24 |

Os caiff y cynnig hwn ei gymeradwyo, gofynnodd yr awdurdodau lleol am ddarparu cyfarwyddyd ategol cadarn yn manylu ar restr o'r cyflyrau y gellid eu hystyried o dan y meini prawf newydd a sut ddylid asesu'r ymgeiswyr hyn.

Nododd yr ymatebwyr bod nam swyddogaethol yn bwysicach ac y dylid rhoi bathodynnau ar gyfer namau symudedd yn yr un ffordd ag y maent yn cael eu hasesu ar hyn o bryd ar gyfer namau parhaol, ond gan gydnabod bod y nam yn un dros dro.

Dywed Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili: "Mae dogfen yr ymgynghoriad yn rhoi esiamplau o gyflyrau meddygol penodol. Nid yw hyn yn cadw at y Model Cymdeithasol o Anabledd, sef un o egwyddorion y cynllun. Byddai hyn yn

gwneud gwahaniaeth sylweddol i nifer y bathodynnau a roddir ac i'r broses asesu".

Mae pryder am ddiffyg cysondeb, sy'n bodoli eisoes ledled Cymru yn y dull o weithredu a ddefnyddir wrth asesu ymgeiswyr o dan y meini prawf dewisol. Rhaid gallu ymdopi â chyflwyno unrhyw feini prawf newydd ar adeg pan mae costau ac adnoddau'n cael eu torri eisoes ledled yr awdurdodau.

***Cwestiwn 3:***
Ydych chi'n credu bod namau dros dro na fyddai'n cael eu cynnwys yn y meini prawf cymhwysedd arfaethedig ond a ddylai gael eu cynnwys?

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Ydw | 40 | Nac ydw | 12 | Heb nodi | 33 |

Awgrymwyd amrywiaeth eang o gyflyrau ychwanegol y dylid eu hystyried ar gyfer eu cynnwys o dan y categori bathodyn dros dro ac mae'r rhain wedi'u rhestru yn y tabl isod.

Er y byddai awdurdodau lleol yn croesawu cyfarwyddyd cadarn a rhestr bendant o gyflyrau, roedd ymatebion yr unigolion neu'r cynrychiolwyr yn darparu enghreifftiau o'u profiadau a'u cyflyrau personol y dylid eu hystyried.

| | Y cyflyrau ychwanegol a awgrymir |
|---|---|
| | |
| 1 | Impio rhydwelïau a gwythiennau |
| 2 | Niwritis cynteddol clywedol |
| 3 | Afiechyd ar y coluddyn a chlefyd Crohn |
| 4 | Genedigaeth Caesarean |
| 5 | Cleifion canser sy'n derbyn triniaeth |
| 6 | Plant sydd â phroblemau iechyd |
| 7 | Plant sydd â chlefyd Perthes neu Severs |
| 8 | Problemau poen cymhleth |
| 9 | Afiechyd Rhwystrol Cronig ar yr Ysgyfaint, problemau anadlol / calon |
| 10 | Cyflyrau coronaidd |
| 11 | Wedi torri'r pelfis |
| 12 | Trafferthion Labyrinthaidd |

| | |
|---|---|
| 13 | Lymffoedema |
| 14 | M.E. |
| 15 | Cyflyrau Iechyd Meddwl fel Dementia |
| 16 | Cyhyrysgerbydol - datgymalu aelodau'r corff yn hawdd |
| 17 | Pobl sy'n derbyn triniaeth oncoleg |
| 18 | Pobl sydd ag wlserau ar eu coesau |
| 19 | Pobl sydd â phroblemau gyda'u hysgyfaint a phrinder ocsigen |
| 20 | Pobl sydd â phoen cefn difrifol ac yn aros am lawdriniaeth neu wedi cael llawdriniaeth |

***Cwestiwn 4:***
Ydych chi'n meddwl ei bod yn rhesymol gofyn i ymgeiswyr o dan y meini prawf cymhwysedd arfaethedig ar gyfer namau dros dro ddarparu tystiolaeth gan eu gweithwyr iechyd proffesiynol, neu gael eu cyfeirio at therapydd galwedigaethol?

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Ydw | 54 | Nac ydw | 3 | Heb nodi | 28 |

Dywedodd nifer o'r ymatebwyr mai gweithiwr iechyd proffesiynol yr ymgeisydd fyddai â'r wybodaeth orau am ei gyflyrau, yr effaith ar ei symudedd a'r cyfnod adfer disgwyliedig. Nodwyd hefyd y byddai darparu tystiolaeth ategol yn faich ychwanegol ar y gweithwyr iechyd proffesiynol hyn.

Mynegodd yr ymatebwyr bryder am yr oedi gyda'r broses ymgeisio pe bai'r ymgeisydd yn gyfrifol am gasglu'r dystiolaeth ategol. Gofynnodd yr ymatebwyr am i'r broses fod yn un *"gyflym a rhwydd"*.

Mae Cymdeithas Feddygol Prydain yn credu bod "diagnosis manwl gywir yn llai pwysig na chynnal asesiad swyddogaethol".

Pryder arall oedd y byddai cost ychwanegol i ymgeiswyr er mwyn cael tystiolaeth ategol gan weithwyr iechyd proffesiynol. Yn yr un modd, gofynnodd yr awdurdodau lleol sut byddai'r costau ychwanegol a fyddai'n gysylltiedig â'r galw ychwanegol a'r asesiadau pellach yn cael eu talu.

Awgrymodd rhai esiamplau y gallai'r dystiolaeth ategol gynnwys llythyrau apwyntiad a fyddai ym meddiant yr ymgeisydd, heb orfod gorfodi cost ychwanegol arnynt hwy nac ar yr awdurdod.

Dywedodd nifer o awdurdodau lleol na fyddent yn gymwys nac yn gyfforddus i farnu ceisiadau dros dro. Awgrymwyd ganddynt y gallai'r Gwasanaeth

Cynghori Annibynnol (gwasanaeth Therapi Galwedigaethol yn cefnogi'r pecyn cymorth gwirio) chwarae rôl mewn asesu'r holl geisiadau o dan y meini prawf hyn. Byddai hyn yn cael gwared ar unrhyw *"adwaith negyddol"* posib gan ymgeiswyr a'u cynrychiolwyr ar ôl penderfyniadau negyddol, gan eu bod wedi cael eu hasesu gan weithiwr proffesiynol cymwys yn feddygol.

Mae'r gweithwyr iechyd proffesiynol eraill a awgrymwyd wedi'u rhestru isod:

- Gweithiwr cymdeithasol
- Gofalwr
- Llawfeddyg
- Ymwelydd iechyd
- Pediatrydd
- Nyrs glinigol
- Therapydd Galwedigaethol yr Awdurdod Lleol
- Gweithiwr cefnogi Tenovus

***Cwestiwn 5:***
Am faint ddylid rhoi Bathodynnau o dan y meini prawf cymhwysedd arfaethedig ar gyfer namau dros dro?

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Blwyddyn | 41 | Dwy flynedd | 7 | Tair blynedd | 2 | Heb nodi | 35 |

Y consensws cyffredinol gan fwyafrif yr ymatebwyr oedd mai cyfnod o flwyddyn oedd y cyfnod mwyaf rhesymol ond awgrymwyd y gallai'r ymgeiswyr hynny ailymgeisio o bosib, os yw'n cymryd mwy o amser na'r disgwyl iddynt wella.Argymhellodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru: "Byddai'n rhaid rhoi ystyriaeth lawn i'r effaith ar adnoddau awdurdodau lleol ar gyfer ymgymryd â hyn, a'i asesu'n llawn" a dywed Grŵp Mynediad Arfon y dylai'r broses ailymgeisio, os oes angen, "fod yn llawer symlach ac yn llai manwl na'r cais cychwynnol; er mwyn gwneud y broses yn fwy effeithlon i'r ymgeisydd ac i leihau'r baich gweinyddol ar yr awdurdod lleol".

I'r gwrthwyneb, dywedodd rhai ymatebwyr unigol y dylid rhoi'r bathodynnau am gyfnodau byrrach, rhwng 3 a 6 mis, ac roeddent yn credu'n gryf na ddylai'r rhai oedd wedi cael bathodyn dros dro'n flaenorol allu ailymgeisio. Dywedodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili: *"Byddai rhoi bathodyn am gyfnod hirach na blwyddyn yn dynodi nad yw'r cyflwr yn un dros dro".*

Hefyd, awgrymwyd mai'r aseswyr a/neu'r gweinyddwyr ddylai benderfynu ar y cyfnod ar gyfer rhoi, yn dibynnu ar y cyflwr, y prognosis, yr amseroedd aros am lawdriniaeth a'r cyfnodau adfer amrywiol.

Teimlwyd y byddai pennu'r cyfnod i fod yn addas i bob ymgeisydd yn arbed ar gostau ailasesu'r unigolyn hwnnw wrth adnewyddu a'r gost ychwanegol o roi bathodyn arall ar gyfer yr un cyflwr dros dro. Fodd bynnag, mae un awdyrdod lleol yn credu y dylai hyn gael ei *"benderfynu gan weithiwr iechyd proffesiynol gan ei fod wedi cael hyfforddiant meddygol".*

Ymateb Llywodraeth Cymru i gwestiynau 1, 2, 3, 4 a 5

Rydym yn deall bod rhaid pwyso a mesur unrhyw estyniad ar y cynllun yn ofalus gan feddwl am yr effaith ar ddeiliaid presennol y bathodyn a'r gofod parcio sydd ar gael.

Pe bai'r cynnig i gynnwys pobl sydd â chyflyrau dros dro'n cael ei weithredu, y bwriad fyddai cynnwys y rhai sy'n bodloni'r un disgrifiad o'r meini prawf dewisol cyfredol "*methu cerdded neu'n cael anhawster sylweddol cerdded"* gyda hynny'n debygol o bara am gyfnod o 12 mis o leiaf.

Byddai'r bathodyn yn cael ei roi am flwyddyn a bydd yr awdurdodau lleol yn cael cyfarwyddyd. Bydd y diffiniad o gymhwysedd yn yr is-ddeddfwriaeth yn amodol ar gyngor cyfreithiol Llywodraeth Cymru ond bydd yn cadw at y Model Cymdeithasol o Anabledd cyn belled ag y bo hynny'n ymarferol.

Roedd yn siomedig deall nad oedd nifer o'r ymatebwyr yn ymwybodol o'r meini prawf cymhwysedd cyfredol. Roedd sylwadau gan rai mudiadau yn y trydydd sector, yn cynnig cynnwys pobl sydd eisoes yn gymwys i wneud cais am fathodyn a chael cymorth gan y cynllun, yn peri pryder mawr. Hyd yma, mae gwybodaeth am y cynllun yn hanfodol er mwyn sicrhau bod sefydliadau, sy'n gweithredu fel eiriolwyr, yn gallu cynghori a chyfeirio eu haelodau'n briodol.

Gellir rhoi sylw i hyn drwy gynnal ymgyrch gyhoeddusrwydd i greu mwy o ymwybyddiaeth o bwy mae'r cynllun yn gallu eu helpu, beth yw cyfrifoldebau deiliaid y bathodynnau ac unrhyw newidiadau sy'n digwydd.

***Cwestiwn 6:***
Ydych chi'n cytuno mai dim ond at weithwyr iechyd proffesiynol annibynnol ddylai awdurdodau lleol droi, ac nid meddygon teulu (lle mae angen arbenigedd meddygol ychwanegol), i benderfynu a yw ymgeiswyr yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd dewisol ar gyfer symudedd?

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Ydw | 28 | Nac ydw | 36 | Heb nodi | 21 |

Roedd y safbwyntiau'n pegynnu am ddefnyddio meddyg teulu i wirio cymhwysedd ymgeisydd am fathodyn glas ond cyflwynwyd dadl gref gan Gymdeithas Feddygol Prydain i gefnogi'r cynnig, yn ogystal â Choleg Brenhinol y Meddygon Teulu.

Dywed Cymdeithas Feddygol Prydain "rydyn ni'n cytuno y dylid cynnal asesiad annibynnol a byddem hefyd yn cydnabod y bydd therapydd galwedigaethol (neu feddyg ymgynghorol mewn adferiad) yn gallu barnu'n well am anghenion symudedd na meddyg teulu".

Dywed Coleg Brenhinol Meddygon Teulu Cymru y byddai hyn "*yn darparu mwy o degwch i gleifion ledled Cymru".*

Er bod llawer o'r ymatebion gan unigolion yn teimlo mai'r meddyg teulu sydd yn y sefyllfa orau i benderfynu ar gymhwysedd, gan ei fod yn ymwybodol o hanes meddygol ei glaf, roedd ymatebwyr eraill yn credu'n groes i hyn ac yn meddwl bod y meddyg teulu'n gallu bod yn *"rhy agos"* neu y gallai gael ei "*berswadio"* gan ei glaf i'w gefnogi gyda'i gais. Felly, ni fyddai'n cael ei ystyried yn ddiduedd nac yn aseswr llawn ar ofynion symudedd y claf yn erbyn y meini prawf perthnasol.

Dywed Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot "gall yr arfer o ddefnyddio meddyg teulu'r ymgeisydd i wirio a yw'r unigolyn hwnnw'n bodloni'r meini prawf amharu ar berthynas y meddyg/claf yn aml iawn".

Roedd llawer yn teimlo y byddai cael gweithiwr iechyd proffesiynol annibynnol i benderfynu ar gymhwysedd yn lleddfu'r pwysau sydd ar adnoddau meddygon teulu ac arian cyhoeddus ar hyn o bryd a hefyd, mewn rhai achosion, lle mae'r ymgeiswyr wedi cyllido adroddiad y meddyg teulu eu hunain.

Nodwyd bod rhai awdurdodau lleol wedi graddol ddileu'r meddyg teulu o'r broses asesu drwy fabwysiadu Pecyn Cymorth Gwirio Llywodraeth Cymru, ac mae awdurdodau eraill yn bwriadu efelychu'r arfer hwn.

***Cwestiwn 7:***
A oes unrhyw amgylchiadau ble dylai gwybodaeth gan feddyg teulu gael ei defnyddio i asesu cais am Fathodyn yn eich barn chi? Os felly, beth yw'r amgylchiadau hyn?

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Oes | 47 | Nac oes | 13 | Heb nodi | 25 |

Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo'n gryf y dylai meddyg teulu allu cefnogi cais, ar gyfer rhai achosion, mewn dull ffeithiol heb fod yn oddrychol. Teimlwyd y bydd cyfran o ymgeiswyr, sy'n gymwys am fathodyn *efallai*, yn cael eu heithrio fel arall o bosib.

Dyma rai amgylchiadau o'r fath a awgrymwyd:

- Os yw ymgeisydd yn methu cael neu ddarparu tystiolaeth ategol berthnasol
- Os yw ymgeisydd wedi cael ei ryddhau o ofal gweithiwr iechyd proffesiynol arall a'r meddyg teulu yw'r unig ofal mae'n ei dderbyn
- Os yw ymgeisydd ar restr aros am lawdriniaeth neu i weld gweithiwr iechyd proffesiynol priodol
- Os yw ymgeisydd yn dymuno gwneud cais am ei gofnodion meddygol
- Os yw aseswr annibynnol yn dymuno gwneud cais am gofnodion y claf i gefnogi ei benderfyniad, os oes ansicrwydd am ddiagnosis ac os yw'n dymuno ystyried iechyd cyffredinol a hanes meddygol y person.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot yn teimlo y byddai unrhyw gyfraniad gan feddyg teulu *"yn ailgyflwyno dryswch ac yn gamau gwastraffus"* yn y broses.

***Cwestiwn 8:***
Ydych chi'n cytuno y dylid rhoi prosesau mwy effeithlon yn eu lle ar gyfer deiliaid Bathodynnau er mwyn iddynt gael newid eu bathodynnau pan maent yn dod i ben heb ailasesu?

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Ydw | 54 | Nac ydw | 11 | Heb nodi | 20 |

Er bod rhai ymatebwyr yn teimlo bod y system bresennol yn *"gweithio'n dda"* roedd mwyafrif helaeth yn cytuno y byddai proses fwy effeithlon yn rhesymol, ond dim ond pan fo ymgeisydd wedi derbyn asesiad manwl, annibynnol a dibynadwy ar gyfer rhoi ei fathodyn blaenorol iddo.

Byddai proses fwy effeithlon yn lleddfu'r baich ar amser ac adnoddau awdurdodau lleol, gan ei gwneud yn gynt ac yn haws i weinyddu'r achosion sy'n perthyn i'r categori hwn.

Yn y pen draw, byddai proses fwy effeithlon yn lleddfu'r pwysau ar yr ymgeiswyr, rhag gorfod ymgymryd â'r broses ymgeisio gyfan eto, yn enwedig ar gyfer achosion cronig a dirywiol, a fydd angen bathodyn am oes mewn gwirionedd. Efallai bod yr ymgeiswyr sy'n dod o dan y meini prawf hyn yn gorfod wynebu prosesau asesu niferus ac felly byddai gwneud proses ymgeisio'r Bathodyn Glas yn fwy effeithlon, a chael gwared ar yr asesu pellach, yn lleihau'r baich arnynt hwy, a byddai i'w groesawu.

Dywed Anabledd Cymru: "Gallai gwneud y broses yn fwy effeithlon fod o fudd ariannol i Awdurdodau Lleol, gan leihau'r costau gweinyddu a lleihau'r straen emosiynol a'r pryder mae'r broses ailymgeisio'n eu hachosi i lawer o bobl anabl sy'n ailymgeisio am y Bathodyn Glas."

Argymhellwyd na ddylai hyn fod yn berthnasol i *bob* deiliad bathodyn blaenorol, oherwydd mae rhai cyflyrau'n gallu gwella a gall y prognosis newid; efallai y bydd budd-dal person yn gostwng neu'n cael ei ddileu; neu efallai y bydd deiliad y bathodyn yn marw. Roedd nifer fach o'r ymatebwyr yn cydnabod bod y broses ailymgeisio yn ei lle er mwyn herio cam-drin achosion o'r fath.

Derbyniwyd awgrymiadau ar gyfer cyfnod rhoi'r bathodyn gan ofyn a ellid ei newid i gyd-fynd â'r rheol ar gyfer cael pasbort, sef 10 mlynedd i oedolion a 5 mlynedd i blant; a pha un ai oedd modd i ddyddiad dod i ben y bathodyn fod yn benagored.

Dangosodd ymatebion deiliaid y bathodynnau eu siom gyda'r anghysondeb yn nulliau gweithredu'r awdurdodau lleol wrth anfon llythyrau atgoffa at ymgeiswyr yn manylu ar sut ddylent fynd ati i ailymgeisio am fathodyn newydd. Mae hyn wedi achosi peth dryswch ymhlith deiliaid y bathodynnau,

gan arwain at fathodynnau'n mynd heibio'u dyddiad dod i ben cyn i fathodyn newydd gael ei ddosbarthu.

***Cwestiwn 9:***
Ydych chi'n cytuno na ddylai awdurdodau lleol orfod prosesu ceisiadau am Fathodyn o dan y meini prawf dewisol ar gyfer symudedd pan mae'r ymgeisydd wedi cael ei asesu ar gyfer y budd-daliadau lles sy'n defnyddio'r un meini prawf ac wedi cael ei wrthod?

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Ydw | 36 | Nac ydw | 27 | Heb nodi | 22 |

Er bod llawer o gefnogaeth i sefydlu prosesau mwy effeithlon i adnewyddu'r bathodynnau sydd wedi dod i ben, roedd llawer o feirniadaeth ar y cynnig i wrthod ymgeiswyr sydd wedi gwneud cais am fudd-daliadau lles ac wedi cael eu gwrthod.

Roedd nifer arwyddocaol yn teimlo bod defnyddio asesiadau'r Adran Gwaith a Phensiynau, lle nad yw'r person yn derbyn y budd-daliadau lles cymwys, yn anghywir. Y prif reswm a nodwyd yw y gallai pobl a oedd wrthi'n herio penderfyniad gan yr Adran Gwaith a Phensiynau gael eu cosbi ymhellach drwy beidio â chael eu hystyried am gais am fathodyn glas.

Roedd yr ymatebion yn cynnwys amrywiaeth o ffigurau heb eu cyfeirio am nifer yr apeliadau llwyddiannus i'r Adran Gwaith a Phensiynau am Daliadau Annibyniaeth Bersonol. Yn yr achosion hyn, ni fyddai person yn gallu ymgeisio am fathodyn yn ystod y broses apelio, ond wedi apêl lwyddiannus byddai ganddo hawl awtomatig i gael bathodyn glas.

Mae'r awdurdodau lleol a llawer o unigolion yn deall y rhesymeg sy'n sail i'r cynnig hwn, gan fod mesur y meini prawf dewisol yn cyfateb i'r mesur a ddefnyddir i asesu budd-daliadau lles. Ond mae'r awdurdodau lleol yn nodi y byddent yn cael eu gorfodi i ddibynnu ar ymgeiswyr i ddweud y gwir am hawliadau a phenderfyniadau budd-daliadau, gan nad oes unrhyw ffordd i awdurdodau wirio hyn fel arall.

***Cwestiwn 10:***
Y bwriad yw i'r cynnig yng nghwestiwn 9 fod yn berthnasol i bobl sydd wedi cael eu hasesu am y budd-daliadau perthnasol yn unig ac sydd wedi methu bodloni'r meini prawf cymhwysedd yn ystod y 12 mis blaenorol. Ydych chi'n cytuno bod hon yn amserlen resymol?

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Ydw | 35 | Nac ydw | 28 | Heb nodi | 27 |

Er bod llawer yn teimlo bod cyfnod o 12 mis yn ddull rhesymol o weithredu, esboniwyd hefyd nad oedd hyn bob amser yn ddibynadwy o bosib, oherwydd efallai y byddai dirywiad sydyn neu ddifrifol yng nghyflwr person, gan effeithio

ymhellach ar ei symudedd. Awgrymwyd caniatáu disgresiwn i awdurdodau lleol, i seilio'r penderfyniadau ar sail achosion unigol.

| |
|---|
| Ymateb Llywodraeth Cymru i gwestiynau 6, 7, 8, 9 a 10<br><br>Mae'r cyfnod o dair blynedd yn ei le er mwyn sicrhau bod modd monitro'r bathodynnau sydd wedi'u dosbarthu at bwrpas twyll, fel pan fo deiliad y bathodyn wedi marw neu pan nad yw unigolyn yn gymwys mwyach, a chefnogir pob cais gan ddatganiadau wedi'u llofnodi.<br><br>Rydym yn bwriadu llunio rheoliadau i eithrio meddygon teulu o'r broses asesu. Fodd bynnag, efallai y bydd aseswyr allanol yn dymuno ystyried tystiolaeth gan weithwyr iechyd proffesiynol eraill wrth wneud eu penderfyniad i ddyfarnu bathodyn.<br><br>Darperir cyfarwyddyd i gefnogi unrhyw gynigion i wneud y prosesau'n fwy effeithlon mewn achosion lle bu asesiad manwl blaenorol.<br><br>Hefyd bydd y cyfarwyddyd yn argymell y dylai awdurdodau lleol dderbyn ymgeiswyr o dan y meini prawf dewisol, hyd yn oed os ydynt wedi methu bodloni'r lefel gymhwyso ar gyfer dyfarnu budd-dal lles. Ond cydnabyddir bod rhaid rhoi cyhoeddusrwydd i'r meini prawf cymhwysedd a'u cyfathrebu'n ehangach, fel bod rhanddeiliaid yn deall y cyswllt rhwng y meini prawf ar gyfer cymhwyso am fudd-daliadau a'r meini prawf symudedd dewisol. Bydd hyn o gymorth i reoli disgwyliadau.<br><br>Ar hyn o bryd rydym yn trefnu adolygiad o Becyn Cymorth Gwirio'r Bathodyn Glas a byddwn yn gwneud gwelliannau er mwyn sicrhau ei fod yn ymarferol i bob awdurdod ei fabwysiadu. |

***Cwestiwn 11:***
Ydych chi'n meddwl y dylai awdurdodau lleol allu canslo Bathodyn am gamddefnydd os oes digon o dystiolaeth yn dangos bod Bathodyn wedi cael ei gamddefnyddio neu ei gam-drin yn gyson, heb "euogfarn berthnasol"?

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Ydw | 52 | Nac ydw | 10 | Heb nodi | 23 |

Roedd yn amlwg bod camddealltwriaeth eang o'r pwerau cyfredol sydd ar gael i awdurdodau lleol neu beth yw "euogfarn berthnasol", felly roedd yr ymatebion braidd yn amwys neu'n gamarweiniol. Un prif bwynt oedd y dylid atal y rhai sy'n camddefnyddio'r cynllun rhag gwastraffu arian trethdalwyr os ydynt yn defnyddio'r bathodyn o dan amodau ffug er mwyn osgoi talu ffioedd parcio a thollau.

Dywed ymateb gan un unigolyn "O 'mhrofiad i, mae'r rhai sy'n camddefnyddio baeau i'r anabl ac - yn ôl yr hyn rydw i'n ei ddeall gan DMUK - pobl abl yn defnyddio Bathodyn Glas person arall neu berson wedi marw - yn gwybod na

fyddant yn cael eu cosbi am nad oes wardeniaid traffig neu swyddogion cyfatebol yn yr ardal ”.

Mynegwyd pryderon am ymarferoldeb canslo ac adfer bathodyn. Rhaid rhoi mesurau diogelu ar waith i osgoi cyhuddo ar gam, yn enwedig ers ymestyn y meini prawf i gynnwys pobl sydd â namau gwybyddol, neu yn wir os nad deiliad y bathodyn yw'r person sy'n camddefnyddio'r bathodyn.

Mae ymateb gan un unigolyn yn dweud “Ar yr amod mai'r unigolyn ei hun sy'n torri'r rheolau, ac nid, e.e. perthynas. Os nad deiliad y bathodyn ei hun, dylai'r sawl sy'n cam-drin y bathodyn gael ei erlyn, yn GALED”.

Ni ddylai canslo bathodyn gael effaith niweidiol ar y deiliad. Gallai hyn arwain at gosbi deiliad didwyll y bathodyn yn anghywir, ac arwain at ynysu a cholli annibyniaeth ar gyfer y rhai sy'n dibynnu ar eu bathodyn.

Byddai hyn yn anodd ei fonitro a gellid gweld cynnydd yn yr heriau a'r cwynion a fyddai'n arwain yn anochel at gynnydd yng ngwaith yr awdurdodau lleol a'r pwysau arnynt. Maent eisoes yn gwneud toriadau i gyllidebau, gwasanaethau ac adnoddau.

Nodwyd y dylid rhoi o leiaf un rhybudd ysgrifenedig ar achlysur blaenorol o gamddefnydd neu gam-drin, ond roedd eraill yn argymell y dylid pennu cyfyngiad o hyd at dri rhybudd ysgrifenedig. Awgrym arall a gafwyd oedd y dylid sefydlu system o rybudd melyn a choch er mwyn monitro camddefnydd neu gam-drin.

***Cwestiwn 12:***
Os ydych chi wedi ateb ydw i gwestiwn 11 uchod, o dan ba amgylchiadau ydych chi'n ystyried y gellid cyfiawnhau gwrthod rhoi bathodyn neu ei ganslo?

Mae'r awgrymiadau a dderbyniwyd wedi'u crynhoi isod:

- Y bathodyn yn cael ei ddefnyddio gan aelodau'r teulu pan mae deiliad y bathodyn wedi marw
- Deiliad y bathodyn ddim yn bresennol, ar sawl achlysur
- Y bathodyn yn cael ei arddangos yn anghywir, ar sawl achlysur
- Person yn cyflwyno gwybodaeth ffug ar ei gais
- Gweithgarwch twyllodrus fel ceisio copïo'r bathodyn neu newid y dyddiad dod i ben
- Eraill yn defnyddio'r bathodyn i osgoi talu am barcio a thalu tollau
- Parcio peryglus

Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo'n gryf y dylai twyllo gyda'r Bathodyn Glas gael ei drin yn union yr un fath ag unrhyw dwyllo arall gyda budd-daliadau.

***Cwestiwn 13:***
Beth fyddai'n dystiolaeth ddigonol yn eich barn chi o gamddefnydd neu gam-drin er mwyn gwrthod rhoi bathodyn neu ei ganslo, heb fod yn “euogfarn berthnasol”?

Mae'r awgrymiadau a dderbyniwyd wedi'u crynhoi isod:

- Camerâu goruchwylio neu dystiolaeth ffotograffig
- Tystiolaeth ysgrifenedig warden traffig
- Adroddiad digwyddiad gan yr Heddlu neu Swyddog Gorfodaeth Sifil
- Rhoi gwybod am Hysbysiadau Ffi Parcio a chofnodion blaenorol o Hysbysiadau o'r fath a oedd yn gysylltiedig â'r Bathodyn Glas
- Nodiadau awdurdod lleol oherwydd gwybodaeth ffug yn ystod y broses ymgeisio

Gofynnwyd i ni esbonio sut gallai Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwiliol 2000 effeithio ar yr oruchwyliaeth bosib yn gysylltiedig â chamddefnyddio neu gam-drin y Bathodyn Glas, yn enwedig fel ymateb i weithgareddau ar y pryd neu mewn digwyddiad wedi'i gynllunio ymlaen llaw.

| |
|---|
| Ymateb Llywodraeth Cymru i gwestiynau 11, 12 a 13<br><br>Rydym yn cydnabod yr angen am gynnal ymgyrchoedd cyfathrebu i greu mwy o ymwybyddiaeth o bwy mae'r cynllun yn gallu eu helpu, cyfrifoldebau deiliaid y bathodynnau, y pwerau gorfodi cyfredol ac unrhyw newidiadau sy'n digwydd.<br><br>Hefyd byddwn yn diweddaru ein cyfarwyddyd i awdurdodau lleol er mwyn adlewyrchu unrhyw newidiadau yn y pwerau gorfodi, gan gynnwys Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwiliol 2000.<br><br>Byddwn yn ymchwilio i'r angen am ddarparu cyllid i awdurdodau lleol i dalu costau hyfforddi neu swyddogion gorfodaeth sifil ychwanegol. Rydym yn bwriadu cynnal cynllun peilot i adnabod arferion gorau ac i ddatblygu hyfforddiant i rannu'r arferion gorau ledled Cymru. Byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r awdurdodau lleol cyn gynted ag y bo hynny'n ymarferol. |

***Cwestiwn 14:***
Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, esboniwch.

Cododd canlyniad y cwestiwn hwn themâu sy'n dod i'r amlwg, a manylir arnynt isod:

i. Cost (gofyn am ffi am fathodyn)

   Ar hyn o bryd mae'r bathodyn am ddim i bob ymgeisydd yng Nghymru oni bai eu bod yn gwneud cais am fathodyn newydd i gymryd lle bathodyn sydd wedi'i golli, ei ladrata neu ei ddifrodi.

   Byddai ychydig o'r awdurdodau'n hoffi gweld Llywodraeth Cymru'n ystyried cyflwyno ffi i ymgeiswyr i dalu cost rhoi'r bathodyn, ar unrhyw achlysur.

ii. Y Bathodyn

Cafwyd awgrymiadau niferus am gynllun y bathodyn, fel dewis bathodyn dros dro mewn gwahanol liw a chynllun gwahanol i ddefnyddwyr cadair olwyn.

iii. Pecyn Cymorth Gwirio’r Bathodyn Glas

Gwnaed argymhellion am y newidiadau penodol i’r pecyn cymorth er mwyn cynnwys y rhai sy’n cael anawsterau gyda chyflwyno tystiolaeth ategol ar hyn o bryd.

Er bod hanner yr awdurdodau lleol wedi mabwysiadu’r pecyn cymorth yn eu prosesau gweinyddu, roedd cefnogaeth barhaus i sicrhau ei fod yn cael ei ehangu ymhellach ac roedd rhai awdurdodau’n teimlo y dylid ei wneud yn statudol os am geisio cysondeb yn y broses gwneud penderfyniadau.

iv. Ymwybyddiaeth y cyhoedd o’r cynllun

Oherwydd diffyg dealltwriaeth o’r cynllun, y meini prawf cymhwysedd cyfredol a chyfrifoldebau deiliaid y bathodynnau, gofynnodd rhai ymatebwyr am gyfathrebu’r newidiadau i’r cynllun yn eang.

v. Cyfarwyddyd Statudol

Mae’r awdurdodau lleol yn teimlo y byddai cyflwyno cyfarwyddyd statudol i weinyddwyr yn sicrhau cysondeb yn y dull o gynnal asesiadau a chan weithwyr proffesiynol penodol, gyda hyder mewn gwneud penderfyniadau wrth ddilyn canllawiau statudol.

vi. Y System Apelio

Roedd galw am sefydlu proses apelio ar gyfer y rhai y mae eu ceisiadau wedi cael eu gwrthod gan yr awdurdodau a phan mae bathodynnau wedi cael eu canslo yn ystod camau gorfodi.

| |
|---|
| Ymateb Llywodraeth Cymru i gwestiwn 14<br><br>Byddwn yn anfon yr ymholiadau ychwanegol hyn yn eu blaen at Grŵp Gweithredu’r Bathodyn Glas ar gyfer ystyriaeth bellach. |

## Atodiad 1

**Rhestr o Gyfranwyr**

Aelodau Cynulliad

Alun Davies AC

Peter Black AC

Awdurdodau lleol, cynghorau, CLlLC

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

Cyngor Caerdydd

Cyngor Bwrdeistref Sirol Sir Gaerfyrddin

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Cyngor Sir Ddinbych

Cyngor Bwrdeistref Sirol Sir y Fflint

Cyngor Gwynedd

Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Dinas a Sir Abertawe

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Grwpiau Diddordeb

Gwasanaeth Therapi Galwedigaethol Able 2

Aelodau'r Cyhoedd

Adele Gilmour

Adrian Hopkins

Alan Tyler

Angela Ham

Angela M Bridges

Angela Thompson

Brendan Campbell

Brian Stapley

Charles Ricketts

Claire Wheatley

Craig Parry

David Anderson

Dr Barbara Haines

Dr Paul Langmaid CBE

Fenella Bowden

Huw Phillips

Karen Maddock-Jones

Mair Benjamin

Michael Bird

Mrs A Dykes

Access Dolgellau

Gweithredu dros M.E.

Age Cymru

Grŵp Mynediad Arfon

Cymdeithas Feddygol Prydain

Cymdeithas Barcio Prydain

Coping and Living In Pain

Crohn's and Colitis UK

Gwasanaethau Hawliau Anabledd

Anabledd Cymru

Cymdeithas Gyrwyr Anabl Llanelli

Cyngor Tref Llanelli

Lymffoedema Canolbarth Cymru

Cymdeithas y Clefyd Motor Niwron

Cymdeithas MS

Gwasanaethau Cyhoeddus Northgate

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Coleg Brenhinol y Meddygon Teulu

Mudiad SAFE

SNAP Cymru

Gofal Canser Tenovus

Elusen Gymunedol United Amputees

Cynghorwyr Hawliau Lles Cymru

Gofal a Thrwsio Gorllewin Cymru

Mrs J Clarke

Nia Harrison

Norman Grieve

Paul Davies

Philip Bell

Ray John

Sally Aitken

Sara Williams

Sylvia Gilbert

Tommy O Rourke

Tracey Pattison

Victor Martin John Hunt